



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Cofnodion heb eu cadarnhau o gyfarfod
Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella Iechyd Cyhoeddus Cymru
15 Chwefror 2022
Cynhaliwyd drwy Microsoft Teams**

Yn bresennol:		
Kate Eden	(KE)	Cadeirydd y Pwyllgor, Is-gadeirydd y Bwrdd a Chyfarwyddwr Anweithredol
Sian Griffiths	(SG)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
Judi Rhys	(JR)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector)
Hefyd yn bresennol:		
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
John Boulton	(JB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru
Helen Bushell	(HB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Rebecca Clement	(RC)	Person Graddedig mewn Rheolaeth Gyffredinol (yn arsylwi)
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth Archwilio Mewnol
Eleri Davies	(ED)	Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol Dros Dro a Phennaeth Rhaglen Ymwrthedd Gwrthficrobaidd a Rhagnodi (HARP)
Rebecca Fogarty	(RF)	Rheolwr Ymgysylltu a Chydweithio
Wayne Jepson	(WJ)	Arweinydd Rhaglen / Cynghorydd Gwelliant
Donna Newell	(DN)	Arweinydd Diogelu Penodol
Olusola Okhiria	(OO)	Cynrychiolydd Undeb Llafur
Chris Orr	(CO)	Pennaeth Ystadau ac Iechyd a Diogelwch /Rheolwr Cyffredinol Gweithrediadau a Chyllid (ar gyfer eitem 3.4/2022)
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
Jessica Taylor	(JT)	Swyddog Cymorth Gwella Ansawdd ac Archwilio Clinigol
Matthew Taylor	(MT)	Cynrychiolydd Undeb Llafur

Christopher Thomas	(CT)	Rheolwr Llywodraethu a Chyffredinol
Francesca Thomas	(FT)	Pennaeth Gweithio i Wella
Sarah Thomas	(ST)	Cynrychiolydd Arolygiaeth Gofal Cymru
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd y Bwrdd
Caroline Whittaker	(CW)	Nyrs Arweiniol a Safonau Corfforaethol

Ymddiheuriadau

Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Swyddog Gweithredol
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwyr Anweithredol (Prifysgol)
Andrew Jones	(AJ)	Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Tîm Gweithredol
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Verity Winn	(VW)	Cynrychiolydd Archwilio Cymru

Ysgrifenyddiaeth

Reanne Reffell		Swyddog Cymorth y Bwrdd
----------------	--	-------------------------

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00

QSIC 1/2022 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol, a nododd, oherwydd yr ymateb parhaus i bandemig COVID-19 ac mewn perthynas â'r canllawiau cenedlaethol ar waith, bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn electronig.

Nododd y Pwyllgor yr ymddiheuriadau uchod.

Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i sicrhau cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol.

QSIC 2/2022 Datgan Buddiannau

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau'n ychwanegol i'r rhai a ddatganwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

QSIC 3/2022 Eitemau ar gyfer Sicrwydd

QSIC 3.1/2022 Adroddiad Gweithio i Wella (Chwarter 3, gan gynnwys Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol)

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Gweithio i Wella: Chwarter 3 2021-22 (cyf 3.1 QSIC 2022_02_15).

Wrth gyflwyno'r papur, pwysleisiodd SS y bwriad i ddiweddarau Gweithio i Wella yng ngoleuni'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) newydd, a'r elfen Dyletswydd Gonestrwydd yn y ddeddf. Roedd y cynlluniau'n cynnwys: diweddarau'r polisiau a'r gweithdrefnau presennol; dod yn ganolbwynt ar gyfer cymorth a chefnogaeth yn y maes hwn; ac ysgogi ansawdd a gwelliant ar draws y sefydliad.

Aeth SS ymlaen i roi trosolwg o'r Dangosfwrdd Ansawdd yn y Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad (PAD), gan nodi bod esboniad o'r manylion a'r naratif allweddol yn y papur oedd yn cyd-fynd â'r adroddiad. Dywedodd SS y gallai defnyddio adnoddau penodol o fewn y tîm digwyddiadau fod wedi cyfrannu at y gostyngiad yn nifer y digwyddiadau agored, a rhoddodd grynodedb o ddigwyddiadau adroddadwy cenedlaethol a digwyddiadau 'dim byd annisgwyl'. Tynnodd sylw hefyd at gamau gweithredu'r gwersi a ddysgwyd yn dilyn digwyddiadau yn ymwneud â sicrwydd cymeradwyo deunydd cyfathrebu a'r fideo BSL. Daeth SS a FT â chyflwyniad y Dangosfwrdd i ben drwy roi gwybod am gynlluniau i wella'r Dangosfwrdd Ansawdd.

Ystyriodd y Pwyllgor:

- Pa mor hawdd i'w ddefnyddio yw'r Dangosfwrdd Ansawdd, a holodd am ei ddsbarthiad ar draws y sefydliad. Cydnabu SS yr angen i rannu'r Dangosfwrdd yn rhagweithiol er mwyn lledaenu'r hyn a ddysgwyd a dywedodd fod y gwaith hwn ar y gweill. Dywedodd FT bod y timau wedi bod yn cydweithredu â chydweithwyr yn yr adran Defnyddwyr Gwasanaeth ac Ymgysylltu a soniodd am y bwriad i sefydlu Grŵp Profiad a Dysgu a allai helpu i hwyluso hyn.
- Y cynlluniau gwella awgrymedig ar gyfer y Dangosfwrdd Ansawdd; ac aeth ymlaen i holi am amserlen ar gyfer yr agwedd gwella prosesau, y canlyniadau cyflawni i fesur y gwahaniaeth a wnaed, a sut y byddai'n cysylltu â'r gwaith gwella a chanlyniadau ehangach. Soniodd SS am y gwaith â JB a'r Hyb Gwella Ansawdd i adolygu matricesau perfformiad, ac awgrymodd y byddai datblygu'r Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad ymhellach yn dangos gwelliannau dros gyfnodau amser drwy duddiadau a dadansoddiadau. Soniodd JB am bwysigrwydd y cysylltiad rhwng Gweithio i Wella a'r Rhaglen Gwelliant a fyddai'n cael ei chefnogi gan yr Hyb Gwella Ansawdd. Awgrymodd JB y dylid cyflwyno papur yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai'n disgrifio sut mae'r Hyb Gwella Ansawdd yn cefnogi'r gwaith yn y Gyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrso a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd. Cadarnhaodd y Cadeirydd gais y Pwyllgor am amserlenni dangosol ar gyfer cynlluniau gwella'r Dangosfwrdd Ansawdd, a phapur ar waith cefnogi'r Hyb Gwella Ansawdd yn y cyfarfod nesaf.

Camau gweithredu: Stuart Silcox / John Boulton

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** o ran rheolaeth effeithiol Gweithio i Wella.

QSIC 3.2/2022

Adroddiadau Archwilio

Dyddiad: 15 Chwefror 2022

Fersiwn: 0

Tudalen: 3

QSIC 3.2.1/2022	Diweddariad Cynllun Archwilio Ansawdd a Chlinigol 2021/22
------------------------	--

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Interim y Cynllun Archwilio Ansawdd a Chlinigol 2021-22 (cyf 3.2.1a QSIC 2022_02_15) a Phroses Gynllunio Archwilio Ansawdd a Chlinigol: Cyflwyniad gwelliannau arfaethedig (cyf 3.2.1b QSIC 2022_02_15).

Rhoddodd CW a JT ddiweddariad i'r Pwyllgor ar y broses archwilio ansawdd a chlinigol, tynnwyd sylw at yr adroddiadau ar ganfyddiadau archwilio ac aethpwyd ymlaen i awgrymu nifer o welliannau, megis adroddiadau archwilio safonol, digideiddio a hyfforddiant mewnol ychwanegol. Soniodd JT am y rhaglen wella iterus, gan sôn am y gwelliannau a gyflawnwyd eisoes, a'r bwriad i barhau i wneud gwelliannau pellach fel rhan o'r cylch gwelliant parhaus.

Ystyriodd y Pwyllgor:

- Bwysigrwydd amlinellu'r hyn sy'n digwydd ar draws y sefydliad o ran archwilio a holodd sut y byddai'r gwaith yn cysylltu ac yn integreiddio â'r Hyb Gwella Ansawdd drwy JB, a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, drwy Nathan Jones. Soniodd JB am yr angen i ystyried rhaglenni gwella ansawdd fel estyniad i'r broses archwilio, a chytunodd i gysylltu ag SS, CW a JT i ystyried sut y gallai'r Hyb helpu'r tîm i ddatblygu'r gwaith gwella wrth symud ymlaen. Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ar y cysylltiadau a'r camau nesaf, ar yr adeg briodol.

Camau gweithredu: John Boulton

- Dileu pum archwiliad yn ystod 2021-22 oherwydd pwysau gweithredol/capaciti, ac y byddai gan y tîm ddarlun cliriach o'r cynllun ar gyfer yr archwiliadau hynny yn y dyfodol ar ddiwedd y flwyddyn. Nododd y Pwyllgor fod ystod eang o archwiliadau yn parhau yn rhan o'r cynllun.
- Argymhellodd y Pwyllgor ddiffiniadau a therminoleg gliriach a nododd yr angen i sicrhau bod pobl briodol yn rhan o'r broses o 'hyfforddi'r hyfforddwyr'.
- Cytunodd Ysgrifennydd y Bwrdd i rannu'r 'traciwr' archwilio, a allai fod yn ddefnyddiol i olrhain y camau gweithredu a nodwyd ac a gyflawnwyd yn dilyn archwiliadau clinigol.

Diolchodd aelodau'r Pwyllgor i CW a JT am eu cyflwyniad gan nodi'r manteision clir a wireddwyd eisoes drwy neilltuo adnoddau ychwanegol i'r maes hwn.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** o ran cynnydd y Cynllun Archwilio Ansawdd a Chlinigol ar gyfer 2021/22 a nodwyd y mentrau gwella arfaethedig.

QSIC 3.2.2/2022	Adroddiadau Archwilio Mewnol
------------------------	-------------------------------------

Derbyniodd y Pwyllgor ddau Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol (cyf 3.2.2 QSIC 2022_02_15).

Nododd y Pwyllgor fod adroddiad Archwilio Mewnol ar Ailddechrau Gwasanaethau Sgrinio wedi cael gradd sylweddol, a bod Adroddiad Archwilio Mewnol Labordy IP5 wedi cael gradd resymol.

Ystyriodd y Pwyllgor yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau yng nghydestun cynllun gwaith y Pwyllgor; a chymerodd **sicrwydd** y byddai unrhyw gamau gweithredu o'r adroddiadau hyn yn cael eu monitro drwy'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol.

QSIC 3.3/2022 Adroddiad Rhybuddion (Chwarter 3)

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad ar Reoli Rhybuddion ar gyfer Chwarter 3, 2021-22 (cyf 3.3 QSIC 2022_02_15).

Nododd y Pwyllgor fod yr holl rybuddion wedi'u hadrodd o fewn y gofyniad 48 awr.

Ystyriodd y Pwyllgor y gwaith sydd ar y gweill i gryfhau'r broses o ledaenu rhybuddion a gofynnodd i FT roi diweddariad sicrwydd yn seiliedig ar dystiolaeth i'r Pwyllgor ar yr adeg briodol.

Camau gweithredu: Francesca Thomas / Liz Blayney

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** o ran y system reoli effeithiol ar gyfer dosbarthu, monitro a chadw cofnod o rybuddion/hysbysiadau diogelwch a dderbyniwyd.

QSIC 3.4/2022 Adroddiad Iechyd a Diogelwch (Chwarter 3)

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Iechyd a Diogelwch ar gyfer Chwarter 3, 2021-22 (cyf 3.3 QSIC 2022_02_15).

Ystyriodd y Pwyllgor y tri RIDDOR (dan y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus) yr adroddwyd arnynt yn ystod chwarter 3, gofynnodd am amserlen o ran rhoi'r camau gweithredu ar waith yn ymwneud â'r digwyddiad ar 30 Rhagfyr 2021, ac argymhellodd y dylid ychwanegu amserlenni yn erbyn camau gweithredu mewn iteriadau adroddiadau yn y dyfodol at ddibenion sicrwydd.

Cytunodd CO â'r argymhelliad hwn a dywedodd y byddai hefyd yn rhoi diweddariad i JW ar ôl cael yr adroddiadau gwybodaeth perthnasol.

Camau gweithredu: Chris Orr

Ystyriodd y Pwyllgor y cynllun gweithredu i fynd i'r afael â thargedau o ran archwiliadau trydanol a rheoli dŵr nad oedd yn cydymffurfio bellach a nododd pa mor ddefnyddiol oedd diweddariad y Rhaglen Sgrinio a'r cynnydd o ran asesiadau risg yn y meysydd hynny.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod mesurau priodol ar waith i fonitro cydymffurfiaeth ac i fynd i'r afael â'r meysydd hynny a nodwyd ar gyfer gwelliant.

QSIC 3.5/2022	Egwyl
QSIC 4/2022	Eitemau i'w Cymeradwyo
QSIC 4.1/2022	Ein Dull Ymgysylltu

Derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am Ein Dull Ymgysylltu (cyf 4.1 QSIC 2022_02_15).

Rhoddodd RF ddiweddariad ar gynllun gweithredu blwyddyn un a'r bwriad i newid ffocws ar gyfer blwyddyn 2, a myfyriodd ar y cynllun cyfathrebu fel modd o gryfhau ymgysylltu fel rhan ganolog o'r ffordd mae'r sefydliad yn gweithio.

Ystyriodd y Pwyllgor:

- Yr angen i flaenoriaethu a chadw ffocws ar iechyd y boblogaeth a'r agenda anghydraddoldebau, er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd y grwpiau mwyaf agored i niwed;
- Defnyddio system CIVICA fel arf digidol i gael adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth y sefydliad, sy'n hybu cynwysoldeb ac adborth amser real. Awgrymodd y Pwyllgor sesiwn 'Cinio a Dysgu' ar y system newydd ar adeg briodol;
- Yr oes ddigidol, yr angen i sicrhau cynwysoldeb drwy beidio â gadael unrhyw un o'r boblogaeth nad oedd â mynediad at offer digidol ar ôl;
- Fel rhan o'r adolygiad strategaeth, deall arfer gorau o ran ymgysylltu â'r trydydd sector, a sut y gallem weithio â nhw i sicrhau bod ein gwasanaethau'n hygyrch, gan adnabod mai partneriaid trydydd sector yn aml yw'r cyfrwng gorau i ledaenu negeseuon. Nododd y Pwyllgor y gallai fod gostyngiadau o ran ansawdd mewn perthynas â lledaenu gwybodaeth ac y byddai'n gweithio â'r trydydd sector i glywed straeon cyfranogwyr o lygad y ffynnon lle bo modd.
- Sut i gau'r bwlch fel bod defnyddwyr gwasanaeth yn deall bod ymgysylltu a chyfranogi'n gwneud gwahaniaeth a'u bod felly'n fwy tebygol o ymgysylltu unwaith eto'r tro nesaf, megis 'Dywedoch chi, Gwnaethom ni'.
- Dywedodd HB y byddai'n cysylltu â RF i drafod cyd-gynhyrchu. Aeth HB ymlaen i dynnu sylw at y cynnydd o ran y Pwyllgor cyn y pandemig wrth drosglwyddo adborth profiad defnyddwyr gwasanaeth fel rhan o archwiliadau dwfn i feysydd, ac awgrymodd y dylid cysylltu â RF i edrych ar gynlluniau'r flwyddyn nesaf.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod cynlluniau i weithredu '*Ein Dull Ymgysylltu*' yn mynd rhagddynt.

Cymeradwydd y Pwyllgor y newid ffocws arfaethedig a'r camau gweithredu ar gyfer Blwyddyn 2.

Nododd y Pwyllgor y dull arfaethedig o wella sicrwydd ansawdd Gwybodaeth Gyhoeddus yn dilyn cwyn ynghylch BSL.

QSIC 4.2/2022 | Cofrestr Risg Strategol a Chorfforaethol

Derbyniodd y Pwyllgor y Gofrestr Risg Strategol a Chorfforaethol (cyf 4.2 QSIC 2022_02_15).

Nododd y Pwyllgor, yn dilyn trafodaeth helaeth ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig yng nghyfarfod diwethaf y Tîm Gweithredol Busnes, fod angen adnewyddu risgiau strategol yn erbyn y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

Ystyriodd y Pwyllgor y cais i gymeradwyo newid y sgôr risg a'r dyddiadau targed mewn perthynas â Risg Strategol 1, sef anallu i gynnal yr ymateb i COVID-19. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y newid o ganlyniad i debygolrwydd y byddai'n digwydd yn hytrach nag effaith ar y sefydliad, ond nodwyd mai recriwtio dros gyfnod estynedig o amser oedd yr ateb i'r gofyniad i symud staff hyfforddedig. Dywedodd JR y byddai hyn yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl ac y byddai diweddariad ar gael yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella.

Camau gweithredu: Neil Lewis

Awgrymodd KE y dylid ystyried y cofrestrau risg sy'n ymwneud yn benodol â materion a gofynion y Pwyllgor ymhellach, o fewn yr adolygiad ehangach nesaf a'r broses o adnewyddu'r risgiau strategol.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y cais i newid Risg Strategol 1.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod risgiau Strategol a Chorfforaethol y sefydliad yn cael eu rheoli'n briodol.

QSIC 4.3/2022 | Polisiâu i'w Cymeradwyo

Derbyniodd y Pwyllgor y polisiâu a'r gweithdrefnau Diogelu arfaethedig i'w cymeradwyo (cyf 4.3 QSIC 2022_02_15).

Ystyriodd y Pwyllgor:

- bwriad y cyfnod cymeradwyo byr o ddeuddeg mis oedd i alluogi adnewyddu'r polisiâu/gweithdrefnau ar gyfer gwaith gwella a rhwyddineb defnydd.
- byddai'r 'Weithdrefn Rheoli Honiadau o Gam-drin gan Staff' yn cael ei diweddarau erbyn mis Mawrth 2022, a cheisir cymeradwyaeth drwy weithred y Cadeirydd.
- byddai prosiect adolygu Diogelu Cymru gyfan yn cael ei gynnal yn 2023, a byddai angen i'r sefydliad ymgysylltu â'r dull integredig newydd.

Cymeradwyodd Y Pwyllgor:

- PHW03 - Polisi Diogelu

- PHW03/TP01 – Gweithdrefn Oedolion mewn Perygl;
- PHW03/TP02 – Gweithdrefn Plant mewn Perygl;
- PHW03/TP03 – Gweithdrefn Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

QSIC 4.4/2022**Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn Codi o'r cyfarfod**

Derbyniodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2021 a'r Cofnod o Gamau Gweithredu (cyf 4.4 QSIC 2022_02_15).

Aeth y Pwyllgor ati i:

- **Gymeradwyo** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2021 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod;
- **Cymeradwyo** cau tri cham gweithredu ar y cofnod o gamau gweithredu;
- **Cymeradwyo'r** dyddiadau targed diwygiedig ar gyfer dwy eitem ar y cofnod o gamau gweithredu;
- **Nodi** nad oedd unrhyw faterion yn codi.

QSIC 5/2022**Eitemau i'w Nodi****QSIC 5.1/2022****Edrych Ymlaen**

Nododd y Pwyllgor ragolwg y Pwyllgorau ar gyfer 2022/23.

QSIC 6/2022**Materion Gweinyddol i Gloi**

Diolchodd y Pwyllgor i Judi Rhys am ei chefnogaeth i'r Pwyllgor a dymunodd yn dda iddi yn ei hymdrechion yn y dyfodol.

Daeth y sesiwn agored i ben am 14:30

HEB EU
CYD
DYNHAW